**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithiol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ddydd Mercher, y 3ydd o Dachwedd 2021.**

***[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a chyflwynir cofnodion llawn y cyfarfod i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.***

***Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â recordiad o'r trafodaethau.]***

| | |
|---|---|
| **Presennol:** | Cynghorydd Nicola Roberts (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Richard Owain Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Dafydd Roberts, Ieuan Williams a Robin Williams |
| **Ymddiheuriadau:** | Dim |
| **Hefyd yn bresennol:** | Aelodau Lleol: Cynghorwyr Aled M. Jones (cais 7.2), Bryan Owen (cais 13.1), Margaret M. Roberts (ceisiadau 7.1 a 7.3) |

(1:00 y.p. - 2:05 y.p.)

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 DATGANIAD O DDIDDORDEB** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Bu i'r Cynghorydd Robin Williams ddatgan diddoreb personol ac un oedd yn rhagfarnu mewn perthynas â chais 11.1 ar yr agenda.<br><br>Bu i'r Cynghorwyr John Griffith a Richard Owain Jones ddatgan diddordeb personol ac un a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas â chais 12.1 ar yr agenda. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 COFNODION** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod rhithiol blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar y 6ed o Hydref, 2021 fel rhai cywir. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 YMWELIADAU SAFLE** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cadarnhawyd cofnodion yr ymweliadau safle rhithiol a gynhaliwyd ar yr 20fed o Hydref, 2021 fel rhai cywir. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 CEISIADAU'N CODI** |
| PENDERFYNIAD | 7.1 FPL/2021/145 – Cais llawn ar gyfer gosod 2 gwt bugail yn Rhosydd, Brynteg<br><br>**PENDERFYNWYD ail-ddatgan penderfyniad blaenorol y Pwyllgor i gymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog am y rhesymau a roddwyd ac i awdurdodi'r Swyddogion i osod amodau ar y caniatâd fel sy'n briodol.**<br><br>7.2 FPL/2021/106 – Cais llawn ar gyfer cadw cwt pren i ddal peiriant gwerthu llefrith (Dosbarth Defnydd A1) ynghyd â llain galed a man parcio, addasu'r fynedfa bresennol i gerbydau a thirlunio cysylltiedig ar dir yn Neuadd, Cemaes.<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog am y rhesymau canlynol -**<br><br>• **Fel menter wledig sy'n cyfrannu at ffyniant economaidd a hyfywedd y gymuned;**<br>• **Am na ystyir y bydd y datblygiad yn arwain at unrhyw effeithiau a fydd yn rhy niweidiol i'r AHNE.**<br>• **Ar yr amod bod unrhyw ganiatâd a roddir yn cyfyngu'r defnydd o'r cwt i'r ymgeisydd yn unig.**<br><br>***(Yn unol â gofynion Cyfansoddiad y Cyngor, gohiriwyd y cais yn awtomatig i'r cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyfle i Swyddogion baratoi adroddiad mewn perthynas â'r rhesymau a roddwyd dros gymeradwyo'r cais)***<br><br>7.3 FPL/2021/108 – Cais llawn ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol i annedd fforddiadwy ynghyd â'i addasu ac ehangu yn Fedw Uchaf, Brynrefail, Dulas<br><br>**PENDERFYNWYD ailddatgan penderfyniad blaenorol y Pwyllgor i gymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog am y** |

| | |
|---|---|
| | **rhesymau a roddwyd ac i awdurdodi'r Swyddogion i osod amodau cynllunio i'r caniatâd fel y bo'n briodol a chwblhau cytundeb adran 106 i sicrhau bod yr annedd yn parhau i fod yn eiddo fforddiadwy yn barhaus.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 CEISIADAU ECONOMAIDD** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 CEISIADAU'N GWYRO** |
| PENDERFYNIAD | 10.1 VAR/2021/70 – Cais o dan Adran 73A i ddiwygio amod (08) (Cynlluniau a ganiatawyd) o ganiatâd cynllunio rhif 20C85F/DA (Codi annedd) er mwyn caniatau diwygio'r dyluniad yn Bron Wylfa, Cemaes<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION** |
| PENDERFYNIAD | 11.1 – Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu ynghyd â dymchwel y mordurdy presennol yn 37 Penlon, Porthaethwy<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>11.2 – Cais llawn am storfa dail dan do a tho dros yr iard bresennol yn Plas Newydd, Llanddeusant<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 GWEDDILL Y CEISIADAU** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | 12.1 – Mân ddiwygiadau i'r cynllun a gymeradwywyd yn flaenorol o dan ganiatâd cynllunio 20C310B/EIA/RE (cais llawn ar gyfer adeiladu fferm arae solar 49.99MW ynghyd a offer, seilwaith a gwaith ategol cysylltiedig) yn Rhyd y Groes, Rhosgoch er mwyn diwygio geiriad amodau 5, 6 ac 11 i ganiatáu i'r datblygiad ddigwydd mewn dau gam (cam 1 - gwaith galluogi a cham 2 - gosod paneli) yn Fferm Solar Porth Wen, Cemaes<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 MATERION ERAILL** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | 13.1 – Cais llawn ar gyfer codi annedd ynghyd â chreu mynedfa i gerbydau ar dir yn Rallt Gwta, Niwbwrch<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |